# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## Y CABINET - DYDD IAU, 29 GORFFENNAF 2021

## BWRDD GOFAL CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES Y CABINET

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: A.R.Lockyer (Cadeirydd) a/ac P.D.Richards

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

A.Jarrett, A.Thomas, Davies, C.Frey-Davies, C.Davies a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd A R Lockyer yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2021 fel cofnod cywir.

3. **BLAENRAGLEN WAITH 2021/2022**

   Nodi'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2021/2022.

4. **PROSBECTWS Y GRANT TAI CYMDEITHASOL 2021**

   **Penderfyniad:**

   Dylid nodi'r adroddiad.

## 5. EIDDO GWAG YN CRAMIC WAY

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig, cyhoeddir nad oes angen yr eiddo gwag yn Cramic Way, Port Talbot, SA13 1RU mwyach ar gyfer gofynion gweithredol Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai, ac y dylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Cyhoeddi nad oes angen yr eiddo mwyach ar gyfer gofynion gweithredol Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai a throsglwyddo cyfrifoldeb i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 6. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

**PENDERFYNWYD:** Yn unol ag Adran 100A(4) a (5) Deddf Llywodraeth Leol 1972, wahardd y cyhoedd o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 ac 18 Adran 4 Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

## 7. CYTUNDEBAU GRANT AR GYFER CYFLWYNIAD PROSIECTAU PEILOT A ARIENNIR GAN Y GRANT CEFNOGI TAI

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

8. **CYNLLUN BLYNYDDOL DRAFFT CYFIAWNDER IEUENCTID AC YMYRRYD YN GYNNAR CNPT 2021-2022**

Ar ddechrau'r eitem, dywedodd y Cyfarwyddwr wrth Aelodau'r Cabinet y defnyddiwyd y Paragraff Eithriedig anghywir – dylai hyn fod wedi bod yn Baragraff 18 ac nid paragraff 14.

Yn dilyn mewnbwn gan Aelodau, gwnaed y mân newidiadau dilynol i'r adroddiad preifat:

- Dylai Effeithiau Cymunedau'r Cymoedd ddarllen 'Dim Effeithiau'.
- Yn yr adran Ymgynghori, dylid dileu'r geiriau canlynol: '... ym mhob un o'r tri awdurdod lleol i gael sylwadau.
- Dylai manylion Cyswllt y Swyddog ar gyfer Alison Davies ddarllen 'a.davies8@npt.gov.uk'.

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i gam cyntaf yr asesiad effaith integredig, argymhellir bod y cyngor yn cymeradwyo Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid drafft Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Gynnar Castell-nedd Port Talbot 2021-22.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Er mwyn galluogi Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Castell-nedd Port Talbot ar ran Cyngor Castell-nedd Port Talbot i gyflawni ei ddyletswyddau i ddarparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Nid oes gofyniad i ymgynghori â'r cyhoedd ar y cynllun cyfiawnder ieuenctid, ond mae'r cynllun wedi'i ddosbarthu i bartneriaid drwy'r bwrdd rheoli a'r partneriaethau diogelwch cymunedol.

**CADEIRYDD**